**Stori Olivia – Pecyn Addysgol Diogelwch Gyrwyr Ifainc**

Annwyl Riant/Gofalwr,

Mae eich Swyddog Heddlu Ysgolion yn ymweld ag ysgol eich plentyn yn rheolaidd. Yn ogystal â darparu cyngor a phlismona ysgol cefnogol, mae eich Swyddog hefyd yn cyflwyno gwersi i blant yn y dosbarth er mwyn helpu i gadw plant a phobl ifainc yn ddiogel.

Mae pobl ifainc yng Nghymru (16-24 oed) yn fwy tebygol o gael eu hanafu mewn damweiniau ffordd, a hynny mewn modd anghymesur. Maent yn cyfrif am 11% o'r boblogaeth a 22% o'r holl anafedigion. *Yn 2020, roedd gyrwyr ifainc yn gysylltiedig â 5 gwrthdrawiad angheuol yn ardal Dyfed-Powys.

Mae gyrru dan ddylanwad alcohol a goryrru'n gysylltiedig â rhai o'r gwrthdrawiadau yma yng Nghymru. Mae ffactorau cyfrannol eraill yn cynnwys methu â barnu llwybr a chyflymder eraill a sylw'n cael ei dynnu o fewn y cerbyd.

Yn dilyn gwrthdrawiad traffig y ffyrdd trasig yng ngogledd Cymru lle collodd Olivia Alkir ei bywyd ym mis Gorffennaf 2019, daeth Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân Cymru at ei gilydd i ariannu datblygu cyflwyniad diogelwch Gyrwyr Ifainc newydd, wedi'i anelu at flynyddoedd 12 a 13 mewn ysgolion a Cholegau Addysg Bellach.

Mae 'Prosiect Olivia', sy'n cynnwys ffilm addysgiadol 15 munud am y digwyddiad hwn, yn anelu i dynnu sylw at ganlyniadau'r 5 Angheuol.

Mae'r cyflwyniad hefyd yn edrych ar addysgu pobl ifainc i baratoi'n well wrth yrru ceir; i ddeall fod gan rai gweithredoedd ganlyniadau difrifol a deall y gyfraith mewn perthynas â throseddau gyrru.

Treialwyd y wers mewn nifer o ysgolion yn ddiweddar, ac roedd yr athrawon yn teimlo bod y pwnc wedi'i drin yn sensitif. Yn ogystal, mynegodd y disgyblion fod y wers yn bwysig iawn ac yn hynod berthnasol ar gyfer eu cadw'n ddiogel.

Dywedodd un disgybl: *"Addysgiadol, agoriad llygad a gwers dda iawn. Dysgodd bawb ohonom i fod yn ddiogel wrth yrru a gwrthod pwysau gan gyfoedion!"*

Dywedodd athro: *"Dangoswyd emosiwn gwirioneddol yn y ffilm hon gan mai pobl go iawn oeddent, ac nid actorion yn chwarae rôl."*

Ysgrifennaf i'ch hysbysu bod ysgol eich plentyn wedi gofyn i'r Swyddog Heddlu Ysgolion lleol gyflwyno'r wers i ddisgyblion blynyddoedd 12 a 13. Gan fod y pwnc yn fater sensitif, cysylltwch â'r ysgol os oes gennych unrhyw wybodaeth sydd angen ei rhannu a'i thrafod cyn ymweliad y Swyddog Heddlu os gwelwch chi'n dda.

Yn gywir,

**Bethan James**
Rheolwr Rhaglen Ysgolion yr Heddlu | Police Schools Programme Manager
Y GANOLFAN ATAL GANOLOG | CENTRAL PREVENTION HUB
Heddlu Dyfed-Powys Police

*Yn 2020, roedd gyrwyr ifainc yn gysylltiedig â 5 gwrthdrawiad angheuol yn ardal Dyfed-Powys. Mae'n bwysig nodi nad y gyrrwr ifanc oedd ar fai bob amser. Yn ogystal â hyn, bu farw 4 unigolyn 16 – 24 oed yn 2020, ond ystyriwyd un yn achos o hunanladdiad, felly nid yw'n cael ei ystyried fel marwolaeth ar y ffordd. Yn 2019, bu farw 2 unigolyn o fewn y grŵp oed hwn yn ein hardal ni.

